



Cynigion a gynigir i'r Gynhadledd Genedlaethol Cyngor, 29/01/2018

Rydyn ni mor Extra

Rydyn ni am weld cerdyn NUS Extra yn cynnwys busnesau lleol - ar hyn o bryd, nid yw cerdyn NUS ond yn cynnwys disgowntiau ar gyfer brandiau cenedlaethol, heb unrhyw ddisgowntiau sy'n benodol ar gyfer ardal pob undeb unigol. Rydym am weld opsiwn o ddirprwyo cerdyn NUS i'n busnesau lleol fel y gall ein myfyrwyr gael gafael ar fwy o ddisgowntiau.

- Dim ond busnesau lleol gaiff eu cynnwys yng nghynllun disgownt cerdyn NUS Extra.
- Ar hyn o bryd, rhaid i undebau myfyrwyr weithio gyda busnesau lleol yn eu hardaloedd i ofyn am ddisgownt i fyfyrwyr yn eu siopau.
- Nid yw cadwyni cenedlaethol ar gael i amryw o undebau myfyrwyr anghysbell, ac o'r herwydd ychydig iawn o ddiben sydd i gerdyn NUS Extra yn y Prifysgolion hyn.
- Mae undebau myfyrwyr yn ei chael yn anodd gwerthu cardiau NUS Extra oherwydd natur y busnesau a gaiff eu cynnwys yn y cynllun disgownt.
- Mae myfyrwyr yn teimlo diffyg cysylltiad ag UCM oherwydd y diffyg disgowntiau sy'n berthnasol iddyn nhw.

Gofynnwn i UCM:

- Roi'r pŵer i undebau myfyrwyr i ddedol busnesau llai i gael eu cynnwys yn y cynllun
- Edrych ar fusnesau cadwyn llai sy'n fwy perthnasol i'w haelodaeth
- Ystyried y gwledydd, er mwyn eu cynnwys mewn unrhyw ychwanegiadau newydd i'r cynllun disgownt



Cynigion a gynigir i'r Gynhadledd Genedlaethol Cyngor, 29/01/2018

Rydyn ni Eisiau'r Gymraeg

Rydyn ni am gael dogfennau/adnoddau dwyieithog gan UCM - ar hyn o bryd mae'r adnoddau rydyn ni'n eu derbyn gan UCM yn uniaith Saesneg, ac fel undeb dwyieithog rydyn ni'n ei chael yn eithriadol o anodd gweithio gydag UCM i ddarparu ar gyfer ein holl fyfyrwyr, gan fod rhaid i ni gael yr holl adnoddau wedi'u cyfieithu. Rydyn ni eisiau i UCM ddarparu eu holl adnoddau yn y naill iaith a'r llall.

- Mae UCM ar hyn o bryd yn rhedeg ymgyrchoedd y mae disgwyl i undebau myfyrwyr gyfranogi ynddyn nhw
- Ar hyn o bryd, mae unrhyw ddeunyddiau a roddir i undebau myfyrwyr gan UCM yn uniaith Saesneg.
- Caiff unrhyw UM sy'n gweithredu'n ddwyieithog eu hanwybyddu gan UCM, pan fyddant yn dewis cyflenwi adnoddau yn Saesneg.
- Yn aml, ni all undebau sydd â pholisïau dwyieithog gyfranogi mewn ymgyrchoedd a gaiff eu rhedeg gan UCM heb ddeunyddiau wedi'u cyfieithu, sy'n gallu bod yn anodd pan fo'r celfwaith wedi cael ei ddylunio gan UCM.

Gofynnwn i UCM:

- Ddarparu adnoddau dwyieithog i unrhyw UM sydd angen hyn.
- Anfon celfwaith ar gyfer ymgyrchoedd cenedlaethol i undebau myfyrwyr, os nad oes adnoddau dwyieithog ar gael, er mwyn caniatáu iddyn nhw gymryd rhan.
- Ystyried ei holl aelodaeth, nid dim ond y rheiny sy'n siarad Saesneg



Cynigion a gynigir i'r Gynhadledd Genedlaethol Cyngor, 29/01/2018

Crafu Gwaelod y Gasgen

Rydym ni am i holl ymgyrchoedd UCM fod yn fforddiadwy i bob undeb - ar hyn o bryd caiff y gyllideb ar gyfer ymgyrchoedd UCM ei gosod heb ystyriaeth i undebau llai, sy'n golygu na allwn ymuno ag ymgyrchoedd cenedlaethol, gan na allwn ni eu fforddio. Rydym am weld UCM yn darparu model o bob ymgyrch ynghyd â chyllideb, fel y gall pob undeb ar draws y wlad gyfranogi ym mhob un o ymgyrchoedd UCM.

- Mae ymgyrchoedd a gynhelir gan UCM ar hyn o bryd yn rhy ddrud i undebau myfyrwyr sydd â chyllideb lai i gyfranogi ynddyn nhw.
- Mae undebau sydd â chyllideb lai yn aml yn gyfyngedig o ran yr ymgyrchoedd y gallan nhw eu rhedeg, ac o'r herwydd, cânt eu hynysu o UCM.
- Caiff cynadleddau'n aml eu cynllunio gyda chyllidebau llawer mwy mewn golwg, sy'n cyfyngu ar yr hyfforddiant sydd ar gael i swyddogion
- Mae'r gofynion a wneir gan UCM ar gyfer y gynhadledd genedlaethol yn aml allan o gyrraedd, neu maen nhw'n cyfyngu ar y gwaith y gall undebau ei wneud pan fyddant yn gweithredu ar gyllideb lai.

Gofynnwn i UCM:

- Gynnal astudiaeth o grantiau bloc a chyllidebau a roddir i bob undeb myfyrwyr
- Defnyddio'r ymchwil hwn i gyfyngu ar gyllidebau ymgyrchoedd mawr a gaiff eu rhedeg gan UCM, fel y gall pawb ymuno ynddyn nhw
- Ystyried hyd cynadleddau a hyfforddiant, fel y gall ein holl swyddogion eu mynychu os ydynt am wneud hynny
- Ystyried lleoliad digwyddiadau er mwyn sicrhau y gall pob UM eu mynychu heb osod gormod o straen ar y gyllideb
- Bob amser ystyried dewisiadau amgen, rhatach, i ymgyrchoedd drud